

# Ystyr addoliad

*“Rhowch i'r Arglwydd ogoniant ei enw.” (adn. 2)*

## Beth am ddarllen Salm 29:1–11 ac yna myfyrio

Yr ydym yn parhau i fyfyrio ar y gwirionedd mai gweinidogaeth arbennig eglwys Antiochia oedd gweinidogaeth ei haddoliad. Wrth ysgrifennu ar addoliad, mae A. W. Tozer yn dweud: “Addoliad yw'r gem sydd ar goll yn yr Eglwys Gristnogol.” Mae'n nodi, er bod yna sawl amlygiad o ogoneddu yn yr eglwys, nad yw'n gweld arwyddion o wir addoliad. “Gogoneddu,” meddai, “yw diolch i Dduw am yr hyn mae yn ei wneud. Addoli yw ei garu ef am yr hyn yw.” Os yw'r Eglwys yn yr unfed ganrif ar hugain i addoli Duw, rhaid iddi yn gyntaf fod yn Eglwys sydd yn caru Duw. Mae'n debyg mai'r duedd yn ein byd heddiw yw i feddwl mwy am gael na rhoi. Does fawr neb o fewn ein cymdeithas yn meddwl am eraill. Ychydig o ddegawdau yn ôl, fe fu i rywun grynhoi meddylfryd ein cymdeithas drwy alw ei genhedlaeth yn “genhedlaeth fi”. A ninnau wedi cychwyn ar fileniwm newydd, nid yw'n ymddangos fod pethau wedi newid. Bellach yn 2006, mae dynion a gwragedd yn addoli'r hunan fel ag y buont erioed, ac y mae hyn wedi gadael ei ôl ar yr Eglwys. Faint o wir addoli sydd yn yr eglwysi? Pa mor aml ddown ni o flaen Duw heb feddwl am beth y medrwn ni ei dderbyn, gan ganolbwyntio ar yr hyn y medrwn ni ei gynnig iddo ef mewn addoliad?

Ystyriwch am eiliad beth sydd yn gorwedd tu ôl i'r gair ‘addoliad’. Mae'r gair Saesneg wedi esblygu o'r gair Sacsonaidd sydd yn golygu rhoi gwerth ar rywbeth. Mae addoli, felly, yn rhoi gwerth ar Dduw, yn rhoi'r anrhydedd sydd yn ddyledus iddo ef. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn ein testun heddiw. Mae addoli Duw yn golygu rhoi'r gogoniant sydd yn ddyledus iddo. Peidiwch ag ymatal rhag gogoneddu Duw am yr holl bethau da y mae wedi eu gwneud i chi. Ond peidiwch anghofio ychwaith ei addoli am yr hyn yw o ran ei berson.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Salm 95:1–11; 96:1–13; 97:1–12

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Ewch i'r geiriadur i ddarganfod beth yw ystyr y gair ‘addoli’.
2. Beth am gyfansoddi salm o addoliad?

## Gweddi

O Dad, maddau i mi fy mod mor aml yn poeni mwy am dderbyn o’th law di na rhoi i ti yr addoliad sydd yn ddyledus. Datguddia dy hun i mi er mwyn i mi dy addoli di yn well. Yn enw Iesu. Amen.